| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **22 MAI 2025** |
| TEITL | **CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **YSTYRIED CYLCH GORCHWYL DIWYGIEDIG Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO AM GYMERADWYAETH** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| CAMAU GWEITHREDU | **CYMERADWYO'R CYLCH GORCHWYL** |

---

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i sicrhau bod y Pwyllgor yn gweithredu yn unol â Datganiad Safbwynt CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022 ac i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang.

## 2. DATGANIAD SAFBWYNT CIPFA:

2.1 Mae'r datganiad yn nodi diben, model, swyddogaethau craidd ac aelodaeth y pwyllgor archwilio ac yn ategu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

2.2 Mae CIPFA yn disgwyl y dylai'r holl gyrff llywodraeth leol wneud pob ymdrech i fabwysiadu'r egwyddorion, gan anelu at drefniadau pwyllgor archwilio effeithiol.

2.3 Yn y gweithdy hunanasesu arfer da, roedd y cynllun gweithredu yn cynnwys gofyniad i ddiweddaru cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 3. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL BYD-EANG. NODYN CYMHWYSO A'R COD

3.1 Mae safonau newydd, Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU), yn cael eu gorfodi o 1 Ebrill 2025 sy'n cynnwys y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) o'r IIA[1] a'r Nodyn Cymhwyso: Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn sector cyhoeddus y DU

3.2 Pan gyhoeddodd yr IIA GIAS[2], cydnabu y gallai strwythurau llywodraethu neu gyfreithiau neu reoliadau eraill effeithio ar sut y gellir cymhwyso amodau hanfodol y Safonau yn y sector cyhoeddus. Mae pwyllgorau archwilio llywodraeth leol yn gyrff cynghori anweithredol gyda phwerau cyfyngedig i wneud penderfyniadau.

---

[1] Institute of Internal Auditors
[2] Global Internal Audit Standards

3.3 Mae CIPFA wedi cynhyrchu Cod Ymarfer ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU (y Cod). Mae'r Cod yn darparu'r llwybr i fodloni'r amodau hanfodol yn GIAS yn sector cyhoeddus y DU, wedi'i deilwra ar gyfer llywodraeth leol y DU. Mae Nodyn Cymhwyso GIAS yn sector cyhoeddus y DU yn cyfarwyddo cyrff y sector llywodraeth leol i gymhwyso'r Cod hwn.

3.4 Mae'r Cod hwn yn bodloni amcanion yr amodau hanfodol, drwy ddarparu ar gyfer llywodraethu angenrheidiol archwilio mewnol, ond mewn ffordd sy'n briodol i gyrff llywodraeth leol y DU. Mae'n cynnwys rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgor archwilio, yr uwch reolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu tuag at archwilio mewnol.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r cylch gorchwyl diwygiedig.